



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru Education for Wales

LLAWLYFR MODWL

ECDE7002C

Cyflwyniad i Ddulliau Ymchwil mewn
Addysg

Doethuriaeth mewn Addysg
(Ed D)

LEFEL 7

Yr Athrofa

Y Gyfadran Addysg a Chymunedau

2017-2018

Tîm Modwl

Peter Rabbett a Christine Jones sy'n arwain y modwl hwn. Cysylltwch â nhw os bydd gennych ymholiadau cyffreddinol. Mae Christine yn siarad Cymraeg a bydd yn hapus i weithio gyda chi drwy gyfrwng y Gymraeg. Prif diwtoriaid y modwl fydd Jan Barnes a Helen Lewis.

Yr Athro Peter Rabbett	Peter.Rabbett@uwtsd.ac.uk
Dr Christine Jones	c.m.jones@uwtsd.ac.uk
Dr Jan Barnes	janine.barnes@uwtsd.ac.uk
Dr Helen Lewis	H.E.Lewis@uwtsd.ac.uk
Louis Dare	louis.dare@uwtsd.ac.uk

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau'r modwl ac rydym yma i'ch helpu. Dylech:

- Wneud defnydd da o gyfleusterau ac adnoddau'r Brifysgol
- Mynychu, paratoi a chymryd rhan mewn sesiynau
- Bod yn hunan-gyfeiriol ac yn ddysgwyr annibynnol
- Rheoli eich amser a'ch gwaith er mwyn bodloni dyddiadau terfyn aseiniadau

Eich cyfrifoldeb chi yw darllen Rheoliadau ar gyfer Myfyrwyr y Brifysgol, yn enwedig y rheoliadau sy'n ymwneud ag aseiniadau. Mae'r rhain ar gael ar MyDay.

Dylid cyflwyno pob aseiniad ysgrifenedig, ac eithrio papurau arholiad, yn electronig drwy TURNITIN.

Amcanion a Deilliannau'r Modwl

Mae modwl ymchwil cyntaf y rhaglen Ed D yn canolbwyntio ar ragarweiniad eang ond manwl i ymchwil cymhwysol ym maes helaeth addysg; gan gynnwys paradeimau damcaniaethol a thraddodiadau perthnasol, materion ymarferol dylunio a'r goblygiadau ar gyfer cymeradwyaeth foesegol cyn gweithredu prosiectau ymchwil penodol.

Lluniwyd y modwl er mwyn cael cyfranogwyr i fynd ati i ddatblygu dealltwriaeth feirniadol o ddylunio ymchwil ym maes addysg.

AMCANION

- Cymhwyso cysyniadau methodolegol allweddol mewn ymchwil addysg i gyd-destunau ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol.
- Gwerthuso'n feirniadol fodelau ymchwil addysg gwahanol.
- Deall sut i ddylunio prosiectau ymchwil cydlynol a moesegol i ymateb i gwestiynau ymchwil perthnasol o fewn cyd-destunau ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu dangos y gallu i:

- Werthuso'n feirniadol dechnegau casglu data a modelau ymchwil addysg gwahanol er mwyn ymgymryd â'u hastudiaethau unigol mewn cyd-destunau ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol;
- Dangos a mynegi dealltwriaeth feirniadol o gysyniadau methodolegol allweddol mewn ymchwil addysg a chymhwyso hyn i gyd-destunau ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol;
- Adfyfyrio'n feirniadol ar natur foesegol ymgymryd ag ymchwil yn ymarferol mewn cyd-destunau ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol;
- Gwerthuso'n feirniadol addasrwydd cymhwyso offer casglu data meintiol ac ansoddol mewn cyd-destunau addysgol ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol.

Dyddiadau allweddol

ECDE7002C Cyflwyniad i Ddulliau Ymchwil mewn Addysg	Diwrnod 1 3 Chwefror 2018	Wythnos 1 y modwl
	Diwrnod 2 24 Mawrth 2018	Wythnos 7 y modwl
Wythnos 10 y modwl <i>yr wythnos ddysgu/addysgu ar-lein olaf</i>	5 Mai 2018	
Dyddiad terfyn yr asesiad	5pm 17 Mai 2018	

CYNNWYS DANGOSOL

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr:

Cyd-destun Ymchwil:

- Deall dibenion a phrosesau ymchwil addysg;
- Deall sut y gellir defnyddio ymchwil i lywio a gwella arfer neu sefydliadau mewn addysg;
- Nodi sut mae eu prosiect yn gwneud cyfraniad i'r corff o wybodaeth;
- Dangos dealltwriaeth feirniadol o'r cyd-destun damcaniaethol a/neu'r traddodiad y mae eu hastudiaeth wedi'i lleoli ynddo.

Problemau Ymchwil:

- Gallu adnabod ac egluro ffocws cysyniadol clir ar gyfer astudiaeth ymchwil;
- Gallu darparu rhesymwaith clir ar gyfer yr ymchwil;
- Gallu adnabod cwestiynau allweddol ac amcanion, a'u harwyddocâd i'w maes;
- Bod yn gyfarwydd â gweithdrefnau ar gyfer cynnal ymchwil moesegol.

Mathau o ddata:

- Gallu adnabod pa wybodaeth neu ddata sydd eu hangen i ymateb i'r cwestiynau ymchwil a nodir;
- Gallu ystyried ffynonellau posibl y wybodaeth neu'r data sydd eu hangen (dogfennau, adnoddau, pobl);
- Deall a gwerthuso amrywiaeth o weithdrefnau ar gyfer casglu data;
- Gallu dewis offeryn casglu data sy'n briodol i'r cyd-destun ac amcanion eu hastudiaeth.

Dylunio:

- Gallu dewis, dylunio a llunio offer ymchwil priodol ar gyfer prosiect ymchwil ar raddfa fach, megis ar gyfer yr astudiaeth feirniadol neu waith doethurol peilot;
- Deall a gwybod sut i fynd i'r afael â'r materion moesegol sy'n gysylltiedig â'u dyluniad ymchwil;
- Gwybod sut i gymhwyso ffurfiau dadansoddi priodol i ddata gwreiddiol a/neu eilaidd;

Cyfathrebu:

- Gallu ymwneud â dylunio a gwerthuso ymchwil cydweithredol;
- Gallu adolygu a thrafod ymchwil cyhoeddedig yn feirniadol;
- Gallu mynegi syniadau ymchwil a gwaith sydd ar y gweill i gymheiriaid a chydweithwyr.

Manylion y Sesiynau

Mae gan y modwl hwn gyfanswm o 30 awr o ddysgu ar yr amserlen a 270 awr o ddysgu annibynnol. Mae dau ddiwrnod pryd bydd cyfranogwyr a'r tîm modwl yn gweithio gyda'i gilydd a rhaglen o weminarau/tiwtorialau wythnosol sy'n newid rhwng amser tiwtorial unigol y gellir ei fwcio a sesiynau trafod grŵp.

Cynhelir y weminar/tiwtorial wythnosol ar **nos Fawrth rhwng 7-8pm.**

Wythnos	Dyddiad 2018	Ffocws; darllen ymlaen llaw a gweithgarwch dilynol	Arweinydd*
1	Dydd Sadwrn 3 Chwefror Drwy'r dydd	Darllen ymlaen llaw Darllenwch o leiaf UN o'r tair pennod sy'n rhoi trosolwg o ontoleg ac epistemoleg mewn ymchwil cymdeithasol Noder - disgwylir i chi ddarllen y tair (a chwilio am rai eraill tebyg) ar hyd y modwl! PEIDIWCH Â CHAEL EICH DIFLASU gan yr arddull a'r derminoleg: byddwn ni'n gweithio drwy hyn gyda'n gilydd. - pennod 1 Cohen, Manion a Morrison 2011 (*argymhellir) - pennod 1 Gray 2018 - pennod 7 Flick Tasg baratoi Dewch â dwy ffynhonnell academiaidd o ddeunydd yn gysylltiedig â maes / â'ch maes o ddiddordeb ymchwil i'r sesiwn ar 3 Chwefror	Hunan-astudio i gyd
		Ymchwil addysg - pam trafferthu? Lle ymchwil addysg yng Nghymru Nodyn ar ymchwil addysg ac ymchwil doethurol	Arweinwyr 3 Chwefror: PR/CMJ
		Dysgu allweddol yn y modwl hwn: - Ontoleg (diwrnod 1) - Epistemoleg (diwrnod 1) - Darllen beirniadol (diwrnod 1/2) - Damcaniaeth fel ffrâm ar gyfer meddwl (diwrnod 1/2) - Moeseg (diwrnod 2) - Dylunio ymchwil cydlynol (yn rhedeg fel thema drwy'r modwl) Paradeimau a Safbwyntiau – Sut rydym yn gwneud synnwyr o'r naratifau'n gysylltiedig â 'thystiolaeth ymchwil' Rhoi dysgu blaenorol ar waith - beth yr ydym yn ei wybod ac yn ei ddeall yn barod (ontoleg ac epistemoleg)	
		Damcaniaeth mewn ymchwil addysg Ble mae'r ddamcaniaeth mewn gwerthuso?	
		Adolygu'r llenyddiaeth, gwneud chwiliadau llenyddiaeth Cyflwyniad i'r broses ymchwil Cyflwyniad i brosesau cymeradwyaeth foesegol	

		Trosolwg o'r modwl, tiwtorialau a gweminarau Cynllunio asesiadau	
		Meddwl dilynol: - Beth yw fy safbwynt (arferol) o ran ontoleg ac epistemoleg? - Ydy ontoleg ac epistemoleg yn bwysig? (Pam?) - Beth yw'r gwahaniaeth rhwng ymchwil addysg a gwerthuso addysgol?	
		Darllen/tasg ddilynol: - Darllenwch o leiaf un arall o'r penodau a ddarparwyd - Darllenwch bennod 8 Childs a Menter 2018 - Darllenwch bennod 4: Cohen, Manion a Morrison 2011 cyn diwrnod 2 (24-03-17) - Ceisiwch ddynodi cydlyniad pob papur ymchwil y byddwch yn ei ddarllen - ystyriwch ontoleg, epistemoleg a'r honiadau a wneir ar gyfer y canfyddiadau. Byddwch yn ddarllenwyd beirniadol.	
2	Dydd Mawrth 13 Chwefror 7-8pm	Tasg baratoi - Ystyriwch eich maes o ddiddordeb ymchwil sy'n datblygu (neu faes o ddiddordeb ymchwil) - Yng nghyswllt y maes hwn o ddiddordeb, nodwch ddau gwestiwn ymchwil a allai eistedd o fewn paradeim positifaidd a dau gwestiwn ymchwil a allai eistedd o fewn paradeim deongliadol; Byddwch yn barod i esbonio'ch rhesymwaith pam mae pob cwestiwn ymchwil yn gysylltiedig â'r paradeim a ddynodwyd	
		Sesiwn ar-lein a rennir: Creu cwestiynau ymchwil Rhannu syniadau ac enghreifftiau	Jan Barnes
3	Dydd Mawrth 20 Chwefror 7-8pm	Sesiwn diwtorial Pwrpas y sesiwn hon yw i chi fwcio amser tiwtorial i drafod: - Datblygu syniadaeth o'r modwl ac unrhyw faterion cysylltiedig - Eich syniadau am gwestiynau ymchwil y gallech eu defnyddio ar gyfer elfennau'ch aseiniadau - Trafod paradeim ymchwil; ontoleg a/neu epistemoleg	Bwciwch ymlaen llaw gyda Jan Barnes/ Helen Lewis - Unigol - Pâr - Grŵp
4	Dydd Mawrth 27 Chwefror 7-8pm	Tasg baratoi Ail-ddarllenwch adran 1.13 ac 1.14 o bennod 1: Cohen, Manion a Morrison (2011) Darllenwch: - bennod 13 Punch 2009 - pennod 8 Gray 2018	
		Sesiwn ar-lein a rennir: Dylunio ymchwil pragmatig a dulliau cymysg	Helen Lewis

		Enghraifft o PhD a gwblhawyd yn ddiweddar Trafodaeth	
5	Dydd Mawrth 6 Mawrth 7-8pm	Sesiwn diwtorial Pwrpas y sesiwn hon yw i chi fwcio amser tiwtorial i drafod: - Datblygu syniadaeth o'r modwl ac unrhyw faterion cysylltiedig - Eich syniadau am gwestiynau ymchwil y gallech eu defnyddio ar gyfer elfennau'ch aseiniadau - Trafod paradeim ymchwil; ontoleg a/neu epistemoleg	Bwciwch ymlaen llaw gyda Jan Barnes/ Helen Lewis - Unigol - Pâr - Grŵp
6	Dydd Mawrth 13 Mawrth 7-8pm	Tasg baratoi Gwnewch y darllen, y gwylio a'r meddwl a nodwyd yng nghyswllt maint effaith ac adolygiadau ymchwil a baratowyd gan Paul Hutchings.	
		Sesiwn ar-lein a rennir: Ystadegau ac ymchwil Cyflwyniad: - Esbonio ystadegau (beth mae angen i chi ei wybod os nad ydych yn gwybod am ystadegau) Trafodaeth: - Ydy ystadegau'n arwain neu'n camarwain? - Cyfrifiadau maint effaith ac adolygiadau ymchwil - a ddylai'r rhain sbarduno polisi a/neu raglenni dysgu proffesiynol?	Paul Hutchings
7	Dydd Sadwrn 24 Mawrth Drwy'r dydd	Darllen ymlaen llaw Darllenwch - bennod 4 Cohen, Manion a Morrison 2011 - penodau 5 ac 11 Childs a Menter 2018 Tasg baratoi Paratowch gyflwyniad 3-5 munud ar elfen asesu 1 neu 2; gallwch ddefnyddio PPT os dymunwch ond nid yw'n ofynnol; nid cyflwyniad a asesir mo hwn ond cyfle ffurfiannol (gorfodol) i drafod drafft cynnar ar eich syniadau ar gyfer un o elfennau asesu'r modwl.	
		Offer ymchwil - Pa offer sydd ar gael? - Dewis yr offer iawn i'r gwaith - Cynnal cydlyniad drwyddi draw	Jan Barnes Helen Lewis
		Prosesau cymeradwyaeth foesebol; rheoli risg a rheoli data.	Jan Barnes Helen Lewis
		Darllen dilynol Rhan 4 a 5 Flick 2014 Pennod 5: Cohen, Manion a Morrison 2011 Elfennau perthnasol rhannau 3 a 4 yn Cohen, Manion a Morrison 2011	
8		Tasg baratoi	

	Dydd Mawrth 17 Ebrill 7-8pm	Lluniwch adrannau risg a rheoli data Ffurflen Foeseg y Drindod Dewi Sant am brosiect ymchwil gan ddefnyddio'r prosesau ymchwil o UN o'ch elfennau asesu; ystyriwch gydsyniad pwy y byddai ei angen arnoch ar gyfer y prosiect, a phob offeryn ymchwil penodol, a sut y byddech yn gofyn amdano.	
		Sesiwn ar-lein a rennir: Prosesau caniatâd a chydsyniad Cyflwyniad: prosesau caniatâd a chydsyniad Trafodaeth	Helen Lewis
		Darllen dilynol Pennod cydsyniad /caniatâd	
9	Dydd Mawrth 24 Ebrill 7-8pm	Sesiwn diwtorial Pwrpas y sesiwn hon yw i chi fwcio amser tiwtorial i drafod: - Datblygu syniadaeth o'r modwl ac unrhyw faterion cysylltiedig - Eich cwestiynau ymchwil drafft a dyluniadau ymchwil ar gyfer elfennau'ch aseiniadau - Trafod prosesau moeseg cysylltiedig (cydsyniad, risg a rheoli data)	Bwciwch ymlaen llaw gyda Jan Barnes / Helen Lewis- Unigol - Pâr - Grŵp
10	Dydd Mawrth 1 Mai 7-8pm	Sesiwn diwtorial Pwrpas y sesiwn hon yw i chi fwcio amser tiwtorial i drafod: - Datblygu syniadaeth o'r modwl ac unrhyw faterion cysylltiedig - Eich cwestiynau ymchwil drafft a dyluniadau ymchwil ar gyfer elfennau'ch aseiniadau - Trafod prosesau moeseg cysylltiedig (cydsyniad, risg a rheoli data)	Bwciwch ymlaen llaw gyda Jan Barnes . Helen Lewis - Unigol - Pâr - Grŵp
Dyddiad terfyn asesiad: 5pm 17-05-18 - Cyflwynwch elfennau 1, 2 a 3			
* Mae CJ ar gael ar hyd yr amser i gefnogi trafodaethau tiwtorial cyfrwng Cymraeg, pwyso a mesur ac egluro terminoleg yn y Gymraeg.			

Trosolwg o'r sesiynau:

1. DIWRNOD 1	Mae'r sesiwn hon yn fframio'r modwl drwy ddisgrifio'r cyd-destun cenedlaethol ar gyfer ymchwil addysg ac ystyried sut mae hyn yn gysylltiedig ag astudio ar gyfer doethuriaeth. Gyda'r bwriad o herio o'r cychwyn cyntaf, mae'r modwl hwn yn cyflwyno syniadau cymhleth sy'n ffurfio craidd dylunio ymchwil cydlynol. Archwilir <i>Ontoleg</i> ac <i>Epistemoleg</i> o ran eu perthynas â pharadeimau meddwl a gweithgarwch ymchwil cysylltiedig. Cydnabyddwn fod y tair blynedd o addysgu ar y radd Ed D yn caniatáu i fyfyrwyr fynd i'r afael â'r cysyniadau hyn a'u harchwilio'n fwyfwy manwl wrth iddynt symud tuag at gam y traethawd ymchwil - ac nid ydym yn ymddiheuro am eu cyflwyno'n gynnar! Mae Diwrnod 1 hefyd yn caniatáu i ni archwilio lle damcaniaeth mewn ymchwil addysg; mae cyflwyniad i'r broses ymchwil a'r angen am ystyriaeth foesegol ofalus o bob gweithgarwch ymchwil. Cawn gyfle i ddiweddarau / dwyn i gof wybodaeth am ddulliau o gynnal chwiliad llenyddiaeth drwy ddefnyddio'r
--------------	--

	cronfeydd data sydd ar gael drwy lyfrgell y Drindod Dewi Sant a darperir trosolwg o'r modwl a'r asesu.
2. SEMINAR AR-LEIN	Creu cwestiynau ymchwil Sesiwn ysgafn ac ymarferol, gan ddilyn y gweithgarwch paratoi, lle byddwn yn 'chwarae' ar y cyd â'r syniadau o ddiwrnod 1 ac yn rhoi cynnig arnynt yn ymarferol. Mewn cydweithio chwareus disgwyliwn ymgysylltu, cefnogi a herio syniadau ein gilydd.
3. SESIWN DIWTORIAL* <i>bwciwch un yn sesiwn 3 neu sesiwn 5</i>	Pwrras y sesiwn hon yw i chi fwcio amser tiwtorial (unigol, pâr neu grŵp) i drafod: - Datblygu syniadaeth o'r modwl ac unrhyw faterion cysylltiedig - Eich syniadau ynghylch cwestiynau ymchwil y gallech eu defnyddio ar gyfer elfennau'ch aseiniadau - Trafod paradeim ymchwil; ontoleg a / neu epistemoleg
4. SEMINAR AR-LEIN	Dylunio ymchwil pragmatig a dulliau cymysg Er mwyn cael cipolwg ar ddefnyddio dyluniadau ymchwil dulliau cymysg, clywn gan fyfyrwraig PhD a gwblhaodd yn ddiweddar ac a weithiodd ar draws y paradeimau meintiol ac ansoddol yn ei hastudiaeth o syniadaeth plant bach. Cymerwn y cyfle i drafod buddiannau a chyfyngiadau dulliau cymysg.
5. SESIWN DIWTORIAL* <i>bwciwch un yn sesiwn 3 neu sesiwn 5</i>	Pwrras y sesiwn hon yw i chi fwcio amser tiwtorial (unigol, pâr neu grŵp) i drafod: - Datblygu syniadaeth o'r modwl ac unrhyw faterion cysylltiedig - Eich syniadau ynghylch cwestiynau ymchwil y gallech eu defnyddio ar gyfer elfennau'ch aseiniadau - Trafod paradeim ymchwil; ontoleg a / neu epistemoleg
6. SEMINAR AR-LEIN	Ystadegau ac ymchwil Yn y seminar hon cawn ein cyflwyno i syniadau allweddol mewn ystadegau - yr egwyddorion canolog sy'n caniatáu i ni ymgysylltu â deunydd ystadegol. Yn ystod blwyddyn 2 ceir cyfle i ddilyn llinyn a addysgir ar ystadegau; fodd bynnag nod y seminar hon yw crafu wyneb y maes hwn er mwyn i ni allu ystyried pŵer a gwerth ystadegau mewn ymchwil, a chydabod y potensial am gamddefnydd neu gymhwyso gor-sympl yn sgil y pŵer hwn. Hefyd trafodwn y defnydd o gyfrifiadau o faint effaith ac adolygiadau ymchwil i yrru polisi a dysgu proffesiynol.
7. DIWRNOD 2	Ar yr ail ddiwrnod wyneb yn wyneb hwn ar gyfer y modwl, cewch gyfle i rannu'ch syniadau cynnar ynghylch o leiaf un o'ch elfennau asesu. Ffocws y diwrnod yw offer ymchwil - hynny yw, y dulliau penodol yr ydym ni fel ymchwilwyr yn eu defnyddio i greu data. Ystyriwn yr angen i sicrhau'r 'offer iawn i'r dasg' a chydabyddwn fod goblygiadau i bob penderfyniad ymchwil o ran deilliannau'r broses ymchwil. Edrychwn eto ar ontoleg ac epistemoleg er mwyn sicrhau bod ein dyluniadau ymchwil yn parhau'n gydlynol. Bydd y diwrnod hefyd yn cynnwys ystyriaeth o ymchwil moesegol a'r angen am brosesau ffurfiol ar gyfer cymeradwyaeth foesegol; mae ffocws penodol ar reoli risg a rheoli data.

	Bydd y sesiwn heddiw a'r gweithgarwch dilynol yn bwydo i mewn i'ch elfennau asesu'n uniongyrchol.
8. SEMINAR AR-LEIN	Prosesau caniatâd a chydsyniad Gan adeiladu ar yr ail ddiwrnod llawn ystyriwn, yn ofalus ac yng nghyswllt offer ymchwil penodol, y goblygiadau ar gyfer prosesau caniatâd a chydsyniad. Trafodwn yr heriau sy'n bodoli o fewn rhai arferion sefydliadol o ran prosesau caniatâd a chydsyniad dilys. Cydnabyddwn yr anghydbwysedd o ran pŵer sy'n bodoli mewn llawer o sefyllfaoedd lle mae oedolion yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc a thrafodwn y goblygiadau moesegol.
9. SESIWN DIWTORIAL* <i>bwciwch un yn sesiwn 9 neu sesiwn 10</i>	Pwrpas y sesiwn hon yw i chi fwcio amser tiwtorial (unigol, pâr neu grŵp) i drafod: - Datblygu syniadaeth o'r modwl ac unrhyw faterion cysylltiedig - Eich cwestiynau ymchwil drafft a dyluniadau ymchwil ar gyfer elfennau'ch aseiniadau - Trafod prosesau moeseg cysylltiedig (cydsyniad, risg a rheoli data)
10. SESIWN DIWTORIAL* <i>bwciwch un yn sesiwn 9 neu sesiwn 10</i>	Pwrpas y sesiwn hon yw i chi fwcio amser tiwtorial (unigol, pâr neu grŵp) i drafod: - Datblygu syniadaeth o'r modwl ac unrhyw faterion cysylltiedig - Eich cwestiynau ymchwil drafft a dyluniadau ymchwil ar gyfer elfennau'ch aseiniadau - Trafod prosesau moeseg cysylltiedig (cydsyniad, risg a rheoli data)

Manylion yr Asesu

Elfen Asesu 1 - 45%

Aseiniad ysgrifenedig: (3500 o eiriau).

Nodwch gwestiwn ymchwil a allai gynnwys casglu a dadansoddi data **MEINTIOL** fel rhan o'r broses ymchwil. Gwerthuswch yn feirniadol y ffrâm ddamcaniaethol ar gyfer eich ymchwil, gan gyfiawnhau pam y mae'n briodol. Cynlluniwch broses casglu data briodol a dadansoddiad cysylltiedig o'r data, gan adfyfrio ar y cryfderau a'r cyfyngiadau. Adfyfiriwch yn feirniadol ar y materion moesegol sy'n gysylltiedig â'r broses ymchwil.

Elfen Asesu 2 - 45%

Aseiniad ysgrifenedig: (3500 o eiriau).

Nodwch gwestiwn ymchwil a allai gynnwys casglu a dadansoddi data **ANSODDOL** fel rhan o'r broses ymchwil. Gwerthuswch yn feirniadol y ffrâm ddamcaniaethol ar gyfer eich ymchwil, gan gyfiawnhau pam y mae'n briodol. Cynlluniwch broses casglu data briodol a dadansoddiad cysylltiedig o'r data, gan adfyfrio ar y cryfderau a'r cyfyngiadau. Adfyfiriwch yn feirniadol ar y materion moesegol sy'n gysylltiedig â'r broses ymchwil.

Elfen Asesu 3 - 10%

Ystyriwch oblygiadau moesegol un o'ch prosiectau ymchwil (800 o eiriau neu gyfwerth).

Amlinellwch yr ymatebion y byddech yn eu rhoi ar gyfer yr adrannau cydsyniad, risg a rheoli data ar Ffurflen Foeseg y Drindod Dewi Sant mewn perthynas â phrosiect ymchwil, gan ddefnyddio prosesau ymchwil **UN** o'r elfennau asesu uchod.

DARLLEN ALLWEDDOL:

Categori	Eitemau'r Rhestr Ddarllen	Electronig*
Hanfodol	Cohen, L. Manion, L. and Morrison, K. (2013 or 2011) <i>Research Methods in Education, 8th or 7th editions</i> London: Routledge. Argraffiad 2017 ar gael ar DawsonBks	☐
Hanfodol	Flick, U. (2014) <i>An Introduction to Qualitative Research</i> , London: SAGE.	☐
Hanfodol	Gray, D.E. (2018) <i>Doing Real World Research</i> , London: SAGE.	☐
Hanfodol	Punch, K.F. (2009) <i>Introduction to Research Methods in Education</i> . London: SAGE.	☐
Pellach	Aubrey, K. & Riley, A. (2017) <i>Understanding and Using Challenging Education Theories</i> , London: SAGE.	☐
Pellach	Alderson, P. & Morrow, V. (2011) <i>The Ethics of Research with Children and Young People: A Practical Handbook</i> , London: Sage.	☐
Pellach	Arthur, J. (Ed.). (2012). <i>Research methods and methodologies in education</i> . Sage publications.	☐
Pellach	Baxter, P., & Jack, S. (2008). Qualitative case study methodology: Study design and implementation for novice researchers. <i>The qualitative report</i> , 13(4), 544-559. Ar gael ar-lein am ddim.	☒
Pellach	Denzin, N. K. & Lincoln, Y. S. (eds), (2011) <i>The Sage Handbook of Qualitative Research</i> , London: Sage Publications Ltd. Argraffiad 2017 ar gael ar DawsonBks	☐
Pellach	Gorard, S. (2010). <i>Quantitative methods in educational research: The role of numbers made easy</i> . London: Bloomsbury Publishing.	☐
Pellach	Israel, M (2014) <i>Research Ethics and Integrity for Social Scientists: Beyond Regulatory Compliance</i> , Washington: Sage.	☐
Pellach	Lewis, V., Kellett, M., Robinson, C., Fraser, S. & Ding, S., (2006) <i>The Reality of Research with Children</i> .	☐
Pellach	Mauthner, M. L., Birch, M., Jessop, J. & Miller, T. (eds), (2012) <i>Ethics in Qualitative Research</i> , London: Sage Publications Ltd.	☐
Pellach	May, T. & Perry, B. (2011) <i>Social Research and Reflexivity: Content, Consequence and Context</i> , London: Sage Publication Ltd.	☐
Pellach	Salkind, N. J., (2010) <i>Statistics for People Who (Think They) Hate Statistics</i> , London: Sage Publications Ltd.	☐
Pellach	Thomas, G. (2013). <i>How to do your research project: A guide for students in education and applied social sciences</i> . London: Sage.	☐
Pellach	Wellington, Jerry (2015) <i>Educational research: contemporary issues and practical approaches</i> . London: Bloomsbury	☐

Bydd y cyfnodolion isod, yn ogystal â rhai eraill yn y llyfrgell, yn ffynhonnell ddarllen werthfawr i chi.

Hanfodol	Cyfnodolyn: British Educational Research Journal	☐
Pellach	Cyfnodolyn: British Journal of Educational Studies	☒
Pellach	Cyfnodolyn: Educational Action Research	☐
Pellach	Cyfnodolyn: International Journal of Action Research	☐
Pellach	Cyfnodolyn: International Journal of Research and Method in Education	☐
Pellach	Cyfnodolyn: Journal of Educational Research	☐
Pellach	Cyfnodolyn: Cylchgrawn Addysg Cymru	☐
Bydd y gwefannau isod, yn ogystal â rhai eraill, yn ffynhonnell ddarllen werthfawr i chi.		
Hanfodol	British Educational Research Association. Darllenwyd yn: http://www.bera.ac.uk/	☒
Hanfodol	British Educational Research Association. (2011). <i>BERA Ethical Guidelines for Educational Research</i> . BERA. Darllenwyd yn: https://www.bera.ac.uk/wp-content/uploads/2014/02/BERA-Ethical-Guidelines-2011.pdf?noredirect=1	☒
Pellach	Comisiwn Hawliau Anabledd. Darllenwyd yn: http://www.drc-gb.org/	☒
Pellach	Comisiwn Cyfle Cyfartal. Darllenwyd yn: http://www.eoc.org.uk/	☒
Pellach	Cynulliad Cenedlaethol Cymru/Llywodraeth Cymru. Darllenwyd yn: http://www.wales.gov.uk/	☒
Pellach	Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus. Darllenwyd yn: http://www.opsi.gov.uk/	☒

Daw'r darllen paratoadol a dilynol o'r testunau isod a darperir un bennod ohonynt ar eich cyfer ar Moodle.

Childs, A. & Menter, I. (2018) *Mobilising Teacher Researchers* London: Routledge

*Cohen, L. Manion, L. & Morrison, K. (2011) *Research Methods in Education: 7th edition*, London: Routledge.

*Cohen, L. Manion, L. & Morrison, K. (2013) *Research Methods in Education: 8th edition*, London: Routledge.

*Flick, U. (2014) *An Introduction to Qualitative Research*, London: SAGE.

*Gray, D.E. (2018) *Doing Real World Research*, London: SAGE.

*Punch, K.F. (2009) *Introduction to Research Methods in Education*. London: SAGE.

*Noder: Mae gwefan neu ddeunyddiau ar-lein a fydd yn gymorth pellach i'ch hunan-astudio yn cyd-fynd â'r testunau hyn.

Argymhellir eich bod yn darllen yr adrannau o'r testunau isod er mwyn ymglyfarwyddo ag offer ymchwil amrywiol:

Rhan 3 a 4: Cohen, L., Manion, L. a Morrison, K. (2011) *Research Methods in Education: 7th edition*, London: Routledge.

Rhan 4 a 5: Flick, U. (2014) *An Introduction to Qualitative Research*, London: SAGE.

Argymhellir eich bod yn darllen y testun isod er mwyn ymgyswgu â damcaniaeth arloesol a ddefnyddir yn aml i fframio ymchwil addysg:

Aubrey, K. & Riley, A. (2017) *Understanding and Using Challenging Education Theories*, London: SAGE.

- Pennod 1 Maslow
- Pennod 6 Bourdieu
- Pennod 7 Foucault
- Pennod 8 Noddings
- Pennod 9 Stenhouse
- Pennod 14 Mezirow

Mae'r testunau isod yn benodol ar gyfer offer ymchwil; byddant yn fwy defnyddiol wrth i chi symud ymlaen gyda'ch astudiaethau doethurol ac fe'u rhestrir yma er gwybodaeth. Efallai y dymunwch eu darllen os ydynt yn berthnasol i'r dyluniad(au) ymchwil o'ch dewis.

Pellach	Creswell, J. W. (2012). <i>Qualitative inquiry and research design: Choosing among five approaches</i> . Sage.
Pellach	McNiff, J. (2013). <i>Action research: Principles and practice</i> . Routledge.
Pellach	Field, A. (2016). <i>An Adventure in Statistics: The Reality Enigma</i> . SAGE.
Pellach	Fink, A., (2003) <i>How to Ask Survey Questions</i> , London: Sage.
Pellach	Fink, A. (2017) <i>How to conduct surveys: a step by step guide</i> . Sage.
Pellach	McKernan, J., & McKernan, J. (2013). <i>Curriculum action research: A handbook of methods and resources for the reflective practitioner</i> . Routledge.
Pellach	Yin, R. K. (2013). <i>Case study research: Design and methods</i> . London: Sage.